

# SUT I'N HAMDDIFFYN EIN HUNAIN RHAG MAGLAU SATAN

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli realiti Satan y Diafol a'i gynllwynion, na ddylid eu cymryd yn ysgafn. Pwysleiswch y ffyrdd ymarferol o'n hamddiffyn ein hunain a'r gwobrau am wneud hynny

## **SATAN YN BERSON REAL, NID DIM OND EGWYDDOR DRYGIONUS** (4 mun.)

Cred boblogaidd: nad yw Satan yn berson real (*w92 12/1 32*)

Magl gan Satan i gadw rheolaeth dros y ddynolryw

Y ffaith amdani yw fod yr holl fyd dan ei reolaeth (1In 5:19)

Y Beibl yn ffynhonnell gwybodaeth ddibynadwy ynglŷn â Satan

Yr hanes yn Job 1, 2 yn dangos fod Satan yn berson real

Temptiad Iesu hefyd yn profi fod Satan yn real (Mth 4:1-11; *w88 9/1 13-14*)

## **CYMHELLIAD SATAN A'I FWRIADAU** (6 mun.)

Fe'i crewyd e'n berffaith, ond fe ganiataodd i uchelgais ei dynnu ar gyfeiliorn (Iago 1:14, 15)

Yn benderfynol o'i brofi ei hun yn rhagorach na Jehofah drwy droi creaduriaid deallus Duw yn Ei erbyn (*dg 13-14*)

Heriodd gyfreithlondeb awdurdod brenhinol Duw (Gen 3:1-5)

Balchder oedd ei gymhelliad (1Tim 3:6)

Ei her yn rhoi prawf ar bob creadur deallus ynglŷn â'i deyrngarwch i Jehofah (Job 1:9-11; 2:4, 5)

Rhesymau dros fod yn wylidwrus ynglŷn â Satan

Er mwyn iddo beidio â'n difa (1Pedr 5:8)

I arddel awdurdod brenhinol Jehofah, a llawenhau ei galon (Diar 27:11)

Bod yn wylidwrus yn dwyn gwobr bywyd tragwyddol

## **MAGLAU MAE SATAN YN EU DEFNYDDIO** (10 mun.)

Yn y dyddiau diwethaf enbyd hyn, mae Satan yn camarwain llawer drwy ennyn caru plaser (2Tim 3:1, 4)

Trachwant y llygaid, trachwant y cnawd (1In 2:16; *w86 5/1 11-12*)

Cerddoriaeth boblogaidd lygredig, teledu a ffilmiau gwrth-foesol

Mae e'n ennyn brwdfrydedd cenedlgarol, crefyddol hyd yn oed, mewn gwylwyr chwaraeon

Mae'n denu balchder; achosodd gwypm Efa (Gen 3:5, 6)

Cain, Nimrod wedi'u maglu gan falchder (Gen 4:3-8; 10:8, 9)

Balchder hil yn un o faglau Satan (*g84 11/8 4-5*)

Ildiodd y "dyn anghyfraith" i falchder (2Th 2:3, 4)

Defnyddia allu atyniad rhywiol

Hudodd yr angylion (Gen 6:2; Jwdas 6)

Hudwyd yr Israeliaid hefyd gan ferched Moab (Num 25:1)

Mae cyfryngau newyddion y byd, operâu sebon, yn ddefnyddiol i bwrpas Satan

O blith y rhai a ddiarddelir yn flynyddol, mae'r mwyafrif oherwydd anfoesoldeb rhywiol

Tobacco, caethiwed i gyffuriau yn faglau aflan (2Cor 7:1)

Gau grefydd hefyd yn un o faglau Satan (1Cor 10:20)

Yr ocwlt a chywreindeb ynglŷn ag e yn fagl arall (Eseia 8:19, 20)

Satan hefyd yn defnyddio gwrthgilwyr

Maen nhw'n manteisio ar faterion dibwys a chwynion personol (Mth 24:48-51)

Mae ofni dyn yn un arall o faglau Satan (Diar 29:25)

## **SUT I'N HAMDDIFFYN EIN HUNAIN RHAG MAGLAU SATAN** (20 mun.)

Cydnabod bod angen cael ein hamddiffyn rhag y Twyllwr (2Cor 11:3)

Ystyr amddiffyn ydi gorchuddio, gweithredu fel tarian, diogelu rhag niwed

Gwrthsafwch Satan bob amser (Iago 4:7)

Rhaid cadw pob pwnc dadl mae'r Diafol yn eu codi mewn golwg yn gyson (*rs 363-4*)

Dylid casau pethau drwg, pa mor bleserus bynnag yr ymddangosant (Salmu 97:10; 1Cor 14:20)

Gosododd Iesu esiampl (Heb 1:9)

Rhaid gwisgo'r arfogaeth ysbrydol bob amser (Eff 6:11-18; *w92 5/15 21-3*)

*Gwirionedd yn wregys am eich canol*

Bydd llenwi'n meddyliau â gwirionedd Duw yn ein helpu i ddatrys cwestiynau, ein hamddiffyn ni

*Cyflawnder yn arfwisg ar eich dwyfron*

Rhaid diogelu'r galon, cael cymhellion pur (Diar 4:23)

Rhybuddiodd Iesu rhag i'n meddyliau gael eu pylu fel nad ydym yn rhoi buddiannau'r Deyrnas yn gyntaf (Lc 21:34, 35)

*Parodrwydd i gyhoeddi Efengyl tangnefedd yn esgidiau am eich traed*

Byddwch yn amyneddgar, yn ystyriol yn y gwasanaeth maes er mwyn goresgyn gwrthwynebiad mae Satan yn ei gorddi (Lc 10:5, 6)

*Tarian ffydd*

Datblygwch yr arfogaeth amddiffynnol hon drwy astudio'r Beibl a myfyrio, cymdeithaswch â chyd-addolwyr

Y darian fawr hon yn medru diffodd gwawd, athrod, geiriau chwerw, coegni, celwydd

Sbardunwch eich ffydd eich hun drwy helpu eraill (Iago 2:26)

*Iachawdwriaeth yn helm*

Gobaith iachawdwriaeth fel penwisg amddiffynnol (1Thes 5:8)

Cryfhewch y gobaith hwn trwy ddweud wrth eraill amdano

*Yr Ysbryd yn gleddyf*

Angen dod i nabod y Beibl yn well er mwyn datgelu cynllwynion ystrywgar Satan, ei ddysgeidiaeth gau; rhaid ei ddefnyddio'n ddeheuig

Mae gweddi hefyd yn gymorth i'n hamddiffyn ein hunain rhag maglau Satan

Dylai gynnwys erfyn, ymbil, diolch a chlod (Phil 4:6, 7)

Mae ffrwyth yr ysbryd yn amddiffyn cadarn rhag Satan a gweithredoedd y cnawd (Darllen Galatiaid 5:19-23)

Nid yw caru Jehofah a chyd-gredinwyr ddim yn caniatáu lle i weithredoedd y cnawd (1Cor 13:4-8)

Addfwynder yn lleddfu dicter, yn osgoi ymryson (Diar 15:1)

Hunan ddisgyblaeth yn helpu osgoi ildio i weithredoedd y cnawd

Rhaid cernodio'r corff i'w gadw'n foesol lân (1Cor 9:27)

'Does dim lle i feddyliau drwg wrth fwydo'r meddwl ar bethau da (Phil 4:8)

**GWOBRAU O'N HAMDDIFFYN EIN HUNAIN RHAG MAGLAU SATAN** (5 mun.)

Cydwytbod dda oherwydd ymddygiad cywir (1Pedr 3:16)

Llawenydd cyfrannu at gyfiawnhau awdurdod brenhinol Jehofah

'Rydym yn darparu ateb i Dduw ynglŷn â'i Amharchwr (Diar 27:11)

Mae cadw'n huniondeb hefyd yn annog eraill i fod yn ffyddlon (Phil 1:12-14)

Gwobr wych arall yw bywyd tragwyddol mewn cyfundrefn newydd o bethau

Bydd Cristnogion eneiog yn teyrnasu'n frenhinoedd nefol (Dat 5:10)

Bydd "tyrfa fawr" yn goroesi Armagedon ac yn cael rhan yn troi'r ddaear yn baradwys (Dat 7:9-14)

Gallwn ni fwynhau'r gwobrau hyn dim ond os cadwn yn wylidwrus a'n hamddiffyn ein hunain rhag maglau Satan (Mth 24:13)

(Gweler hefyd *w88* 9/1 13-18; *w84* 10/15 11-20; *rs* 361-6)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)